

Bwletin Awdurdod S4C - Hydref 2003

CYFARFOD AGORED – CANOLFAN DINESIG - CASNEWYDD

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 23 Hydref 2003 yng Nghasnewydd. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elan Closs Stephens, Cadeirydd S4C, a bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Iona Jones, hefyd yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

Comedi

Cyfeiriodd aelod o'r gynulleidfa at y ffaith y bu yna lawer o gomedi yn arlwy y Sianel yn ei dyddiau cynnar y Sianel a holwyd pam nad oedd yna gymaint o gomedi ar y Sianel nawr. Atebodd Huw Jones ei fod yn rhannu'r pryder. Nid diffyg ymdrech oedd tu ôl i'r sefyllfa. Roedd tipyn o arian wedi'i wario ar ddatblygu comedi ond roedd hi'n arbennig o anodd i ddatblygu comedi cyson. Er hynny, roedd yna nifer o raglenni yr oedd S4C yn eu darlledu lle'r oedd elfen o gomedi ynddynt, er nad oeddynt yn rhaglenni comedi fel y cyfryw. Aethpwyd ymlaen i ddweud nad oedd hyn yn broblem oedd yn unigryw i ddarlledu Cymraeg, yr oedd rhaglenni comedi gwir llwyddiannus hefyd yn brin ar sianelau Saesneg. Roedd hyn yn faes anodd iawn. Cyfaddefwyd pe bai yna faes lle'r oedd S4C yn dymuno cael mwy o raglenni llwyddianus, comedi oedd hynny. Yr oedd S4C yn gwneud ei gorau i gael mwy yn y maes yma.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni at y ffaith y byddai *Cnex* (sef, rhaglen ddychan animeiddiedig) yn dod yn ôl i'r sgrîn gan bod y rhaglen arbrofol wedi profi'i gwerth. Byddai yna gyfres newydd ohoni yn cael ei darlledu yn y flwyddyn newydd. Roedd yna obeithion y byddai yna raglenni dychan a chomedi eraill hefyd ar gael i'w darlledu y flwyddyn nesaf.

Rhaglenni i Blant Bach

Cyfeiriodd aelod o'r gynulleidfa at sefyllfa ei phlentyn tair 3 mlwydd oed oedd yn byw mewn ardal Saesneg iawn. Lleisiwyd y dymuniad i gael rhaglenni i blant bach er mwyn cael iddynt siarad Cymraeg fel y gallent wneud pethau syml yn y Gymraeg cyn iddynt fynd i ysgol Gymraeg. Atebodd Huw Jones fod y Sianel yn ceisio cynnig rhai pethau i blant bach ond roedd efallai'n wir nad oedd y fath rhaglenni ar gael trwy gydol y flwyddyn a derbyniwyd y pwynt wedi'i wneud. Ychwanegodd y rhiant y byddai raglenni ar fore Sadwrn a Sul hefyd yn beth da iawn. Wrth nodi hyn, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni at y ffaith y bod S4C yn cynnig oriau estynedig o raglenni i blant yn ystod gwyliau ysgol a gobeithiodd y byddai'r arlwy yma'n plesio.

Gwrthdaro Rhaglenni

Soniodd aelod o'r gynulleidfa am y gwrthdaro oedd yn digwydd o bryd i'w gilydd rhwng pethau fel yr Eisteddfod a'r criced. Holwyd pam na ellid darlledu'r rhain ar ail sianel. Atebodd Huw Jones trwy esbonio mai dim ond ar analog yr oedd hyn yn digwydd ac nid oedd yna wrthdaro ar ddiigidol. O ran ail sianel, yr oedd gan y Sianel uchelgeision ar gyfer datblygu S4C2 ymhellach na darlledu'r Cynulliad ond y gwirionedd oedd nad oedd yna arian ar gael i wneud hyn ar hyn o bryd.

Clwb Garddio

Dywedodd aelod o'r gynulleidfa fod y *Clwb Garddio* yn boblogaidd iawn hyd yn oed gan bobl di-Gymraeg. Roedd y rhaglen hon yn un o'r rhaglenni garddio gorau ar deledu yn unman. Roedd yr arbenigwyr yn dda iawn ac roedd y wobr £1,000 ar gyfer y gystadleuaeth hefyd yn denu pobl di-Gymraeg i gymryd rhan.

Isdeitlau

Cyfeiriwyd at ddiffyg cysondeb o ran isdeitlau ar raglenni S4C. Roedd person yn gwylio rhaglen mewn cyfres gydag isdeitlau arni ac yna y tro nesaf nid oedd isdeitlau ar gael. Atebodd Elan Closs Stephens fod gan S4C bolisi o gynnig isdeitlau yr eildro yr oedd rhaglen yn cael ei darlledu. Felly roedd yn dibynnu os taw'r darllediad cyntaf neu'r ail yr oedd rhywun yn gwylio p'un ai oedd yna isdeitlau agored ar gael neu beidio. Roedd S4C hefyd yn cynnig y gwasanaeth isdeitlo ar dudalen 888 ar deletestun ar gyfer 76% o'i rhaglenni felly y tebygrwydd oedd y byddai isdeitlau ar gael ar y gwasanaeth hwn hyd yn oed oes nad oedd isdeitlau agored ar y sgrîn.

Dysgwyr

Soniodd dysgwr Cymraeg yn y gynulleidfa ei bod hi'n anodd defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned oherwydd nad oedd hi'n amlwg pwy oedd yn gallu siarad Cymraeg a hefyd oherwydd diffyg hyder. Roedd rhaglenni da wedi bod ar gyfer dysgwyr, rhaglenni megis *Welsh in a Week* ond nid oedd y rhaglenni presennol fel *Cariad@laith* cystal. Yr oedd angen mwy o raglenni tebyg i *Welsh in a Week*. Ymatebodd Iona Jones drwy ddweud bod S4C wrthi yn edrych ar raglenni i ddysgwyr ar gyfer y flwyddyn nesaf ac felly roedd yr adborth hyn yn ddefnyddiol iawn. O ran defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned cyfeiriwyd at y ffaith bod cyrff fel Mentrau laith yn cynnal digwyddiadau er mwyn caniatáu i siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg gynnal bywyd cymdeithasol yn y Gymraeg.

Pobol y Cwm

Cyfeiriwyd at y newid a fu yn amseroedd darlledu *Pobol y Cwm*. Ymatebodd Iona Jones fod tipyn o ystyriaeth wedi'i roi i *Pobol y Cwm* a'r adborth ynglyn â'r newid i'r amserlen. Roedd hi'n dod i'r casgliad bod angen slot cyson i'r opera sebon yn yr amserlen. Un ystyriaeth oedd y gystadleuaeth o'r operâu sebon ar y sianelau eraill ond teimlwyd y dylid bod â digon o ffydd yn *Pobol y Cwm* i fynd yn benben gyda'r operâu sebon eraill. Er hynny, roedd angen sicrhau bod gwylwyr yn gwybod ar ba amser yr oedd hi'n cael ei darlledu. Yn ogystal, gobeithiwyd y byddai lleoli *Pobol y Cwm* yn y man iawn yn yr amserlen yn arwain pobl at aros gyda'r Sianel i wyllo ei rhaglenni eraill. Soniodd aelod arall o'r gynulleidfa tra ei fod yn mwynhau *Pobol y Cwm* roedd yr isdeitlau ar 888 yn araf yn dod i fyny ac nid oeddynt yn cadw i fyny gyda'r hyn oedd yn cael ei ddweud yn y Gymraeg.

Pam fi Duw

Cyfeiriwyd at gyfres *Pam fi Duw*. Bu hon yn gyfres arbennig o lwyddiannus a phoblogaidd gyda phobl ifanc a holwyd a oedd hi'n fwriad i'w hail-ddarlledu a darlledu'r gyfres dal i'w darlledu. Sylweddolwyd nad oedd adroddiad ymchwiliad y Comisiynydd Plant wedi ei gyhoeddi eto ond efallai y byddai'n iawn i ddarlledu'r gyfres erbyn y flwyddyn nesaf. Roedd Huw Jones yn hapus i gydnabod pa mor boblogaidd y bu *Pam fi Duw* ymysg pobl ifanc. Teimlodd mai'r her i S4C oedd i ddod o hyd i gyfres arall fyddai'n llwyddo i'r un graddau. Nid oedd unrhyw gynlluniau gan S4C i ail-ddarlledu'r gyfres ar hyn o bryd.

Ffigurau Gwylio

Holwyd sut yr oedd S4C yn cyfrif nifer ei gwylwyr. Esboniodd Huw Jones system BARB oeddyn mseur pa sianelau oedd yn cael eu gwyllo tu fewn i yna 540 o gartrefi yng Nghymru a rhyw 10,000 o gartrefi ar draws y DU. Roedd y ffigurau gwyllo oedd yn cael eu cyhoeddi felly wedi ei seilio ar sampl. System BARB oedd y system annibynnol oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ffigurau gwyllo yr holl ddarlledwyr ym Mhrydain. Roedd S4C yn cyhoeddi gwybodaeth gynhwysfawr am ei ffigurau gwyllo yn ei Adroddiad Blynyddol. Roedd S4C hefyd yn cyhoeddi ffigurau wythnosol am ei rhaglenni 'ugain uchaf' er yr hyn nad oedd yn cael cymaint o sylw oedd y ffaith bod yna 900,000 o wahanol bobl yn troi at S4C bob wythnos.

Yr Eisteddfod Genedlaethol

Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai'r Eisteddfod yn ymweld â Chasnewydd y flwyddyn nesaf. Dywedwyd y byddai'n dda pe bae S4C yn gwneud rhywbeth ar y teledu i roi sylw i Gasnewydd. Diolchwyd am y syniad a chadarnhawyd y byddai sylw yn cael ei roi i gynhyrchu rhaglen am yr ardal yn amserol ar gyfer yr Eisteddfod.

CYFARFOD BUSNES

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ddydd Gwener, 24 Hydref 2003 a gynhaliwyd yng nghanolfan dinesig Casnewydd.

Aelodaeth yr Awdurdod

Adroddodd y Cadeirydd bod cyfweiliadau ar gyfer olynydd i Huw Wynne-Griffith wedi'u cynnal ar 3 Hydref 2003. Yr oedd yna argymhelliad nawr yn cael ei roi gerbron yr Ysgrifennydd Gwladol a'r gobaith oedd y byddai modd penodi Aelod newydd erbyn 1 Tachwedd 2003.

Adolygiad S4C

Adroddwyd bod yna ddau gyfarfod pellach wedi'u cynnal yn ymwneud ag adolygiad S4C, un gyda'r Urdd a'r llall gyda'r Cyngor Celfyddydau. Bu'r ddau yn gadarnhaol ac yn bositif gyda nifer o syniadau wedi'u trafod.

Cwpan Rygbi'r Byd

Llongyfarchwyd pawb yn gysylltiedig â darlledu'r rygbi. Roedd yn werth nodi'r ffigyrau gwyllo ar gyfer y gêm Cymru v Tonga, roedd yn amlwg bod pobl wedi ffeindio'u ffordd i'r Sianel i wyllo'r gêm ar y bore Sul (yn enwedig gan mai S4C oedd yr unig ddarlledwr oedd yn dangos y gêm yn fyw ar analog).

Digwyddiadau S4C yn y Cynadleddau Gwleidyddol

Adroddodd y Cadeirydd bod S4C wedi cynnal digwyddiad ym mhob un o gynadleddau'r prif bleidiau. Tra dylid adolygu trefniadau eleni, roedd y Cadeirydd yn fodlon bod negeseuon pwysig wedi eu cyflwyno yn y pedwar achlysur.

TAC a Chôd Ymarfer ar Gomisiynu Rhaglenni

Nodwyd y sefyllfa ddiweddaraf ar y trafodaethau gyda TAC ar y Cod Ymarfer. Roedd y broses o negydu gyda TAC yn dal i fynd yn ei flaen a byddai'r swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Awdurdod ar y mater yn y cyfarfod nesaf.

Gweithlu Skillset/Ofcom

Nododd yr Awdurdod bod hyfforddiant yn y diwydiant yn un o'r meysydd y byddai Ofcom â chyfrifoldeb am ei arolygu. Roedd gweithlu Skillset/Ofcom wedi bod yn creu argymhellion ynglyn a'r math o ymrwymiad hyfforddiant y dylid ei disgwyl o bob darlledwr. Roedd ysgerbwd cynllun côd ymarfer bellach wedi'i gyflwyno i Ofcom ac amlinellwyd i Aelodau'r Awdurdod y prif agweddau ohono. Y bwriad oedd y byddai S4C a'r BBC yn dod o dan y drefn yma ar yr un sail â chwmnïau trwyddedig.

Adolygiad S4C

Ystyriodd yr Awdurdod bapur yn hyrwyddo trafodaeth bellach ar strategaeth S4C ar gyfer y dyfodol yn dilyn trafodaethau'r Aelodau yn ystod eu cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 13 Hydref. Byddai adroddiad drafft o'r papur i'w gyhoeddi ar yr adolygiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf.

Adroddiad Monitro'r Cynllun Corfforaethol 2003-2005

Ystyriwyd y sefyllfa ar ddiwedd trydydd chwarter y flwyddyn. Yn gyffredinol, roedd y targedau wedi'u gosod wedi/yn cael eu cyflawni.

Cyflwyniad gan Berwyn Rowlands, Cyfarwyddwr Sgrin

Croesawyd Berwyn Rowlands, Cyfarwyddwr Sgrin, i gyfarfod yr Awdurdod. Cafwyd cyflwyniad ar Wyl Sgrin Caerdydd (sef, enw newydd Gwyl Ffilm Ryngwladol Cymru) a fyddai'n cymryd lle rhwng 14 a 22 Tachwedd. Cylchredwyd y rhaglen ar gyfer yr wythnos, a thynnwyd sylw at y nifer o uchafbwyntiau ynddi. Er enghraifft, ar y noson agoriadol fe fyddai *premiere* Ewropeaidd y ffilm *Danny Deckchair* (lle'r oedd Rhys Ifans yn chwarae'r prif gymeriad) yn cael ei gynnal. Soniwyd bod yna ddau brif amcan i'r Wyl. Y cyntaf oedd y dylai hi fod yn wyl ar gyfer y cyhoedd; a'r ail ei bod yn ddigwyddiad oedd yn berthnasol i'r sector delwedd symudol yng Nghymru (h.y. ffilm, teledu a chyfryngau newydd). Cydnabuwyd y bu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r wyl yn isel mewn blynyddoedd blaenorol, ond gobeithiwyd y byddai strategaethau marchnata eleni yn gwella ar y sefyllfa. Soniwyd bod yna obaith y byddai rhyw 10,000 o docynnau'n cael eu gwerthu dros gyfnod yr Wyl. Dywedwyd bod dinas Caerdydd ei hun yn gefnogol iawn i'r digwyddiad hwn ac yn awyddus ei bod yn llwyddo. Ar ddiwedd ei gyflwyniad fe wnaeth yr Aelodau ddiolch i Berwyn Rowlands am rannu gwybodaeth am yr wyl.

Materion Eraill

Trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 10 Hydref 2003
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol